**CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL**

**Cadeirydd**: Gerallt Jones

Pwyllgor Blynyddol Nos Lun Mai 24ain 2021

## Cofnodion

1. Croesawyd y Cynghorwyr i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd Gerallt Jones.
2. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Sirol Garffild Lewis.
3. **Cofnodion Blynyddol 2020:** Cynigiwyd yn gywir gan ER gyda GR yn eilio.
4. **Materion yn codi:** System Cyfrifon/rheolau – Cafwyd yn ddigonol a phenderfynwyd parhau a'r system bresennol.
   Polisi Cydraddoldeb:
   - i) Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rhwymedigaethau i weithredu'n deg, yn gyfiawn ac yn unol â'r gyfraith.
   - ii) Yn benodol, ni fydd unrhyw aelod neu weithiwr posibl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, hil neu anabledd. Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas yn ymestyn y cysyniad o gyfle cyfartal i gynnwys gwahaniaethau ar sail credoau crefyddol neu wleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol.
   - iii) Mae'r polisi hwn yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.
   - iv) Bydd yn cael ei adolygu ac os oes angen, yn ael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.
5. **Cwestiynau o'r llawr:** Dim
6. **Mantolen Ariannol 2020-2021** – Cafwyd yn gywir ac arwyddwyd.
   - i) Edrychwyd dros y rheolau cyllid a chael popeth mewn trefn.
   - ii) Mabwysiadwyd asesiad risg a'r rheoliadau sefydlog.
   - iii) Edrychodd y Cynghorwyr dros yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le yma.
   - iv) Trafodwyd polisi gweddillion yr holl arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf sydd yn digwydd yn flynyddol.
7. **Ceisiadau am arian:**
   Dim
8. **Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Mudiadau: oherwydd y pandemig methwyd a chynnal cyfarfodydd.**
   - i) Edmund Rees (Elusen Ysbyty) tenantiaid yn dal yn y tai
   - ii) Gerallt Jones (Pwyllgor Ganolfan) dim i'w adrodd yn ôl.
   - iii) Gwynfor Roberts (Foelas Cyf) dim wedi cyfarfod
   - iv) Edmund Rees (Un Llais Cymru) dim i'w adrodd yn ôl.
   - v) Gari Jones (Llywodraethwyr) wedi bod yn llwyddiannus a derbyn grantiau gan Gronfa'r Melynnau Gwynt a Chyngor Conwy.
9. **Penodi Swyddogion:**
   - a) Cadeirydd - Dewi Ll Evans
   - b) Is-gadeirydd - Gethin Pyrs
   - c) Elusen Ysbyty - Edmund Rees
   - ch) Pwyllgor y Ganolfan - Gerallt Jones
   - d) Foelas Cyf - Gwynfor Roberts
   - dd) Un Llais Cymru - Edmund Rees
   - e) Llywodraethwyr - Gari Jones
10. **Trosglwyddwyd** gan nad oedd yr Is-gadeirydd yn bresennol nid oedd yn bosib trosglwyddo'r gadeiryddiaeth.
11. **Unrhyw fater arall** – Dim.

Arwyddwyd_______________________________ Dyddiad________________________

Cadeirydd